# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fioamrywiaeth: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r cyfarfod cyntaf yn ystod y Chweched Senedd

**Dydd Mawrth 18 Ionawr 2022, 12:15 – 13:15**

Ar Zoom

**Yn bresennol**

| | | |
|---|---|---|
| John Griffiths AS | Llafur – cadarnhawyd fel Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol | JG |
| Delyth Jewell AS | Plaid Cymru – cadarnhawyd fel Is-Gadeirydd y grŵp trawsbleidiol yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol | |
| Huw Irranca-Davies AS | Llafur | HID |
| Carolyn Thomas AS | Llafur | CT |
| Janet Finch-Saunders AS | Ceidwadwyr | |
| Llyr Gruffydd AS | Plaid Cymru | |
| Altaf Hussain AS | Ceidwadwyr | |
| Jayne Bryant AS | Llafur | |
| Mike Hedges AS | Llafur | |
| Helen Cunningham | Swyddfa John Griffiths | |
| Daniel Rose | Swyddfa Carolyn Thomas | |
| Ryland Doyle | Swyddfa Mike Hedges AS | |
| Hannah McCarthy | Swyddfa Carolyn Thomas | |
| Andrew Bettridge | Swyddfa John Griffiths | |
| Ryan Ellis | Swyddfa Janet Finch-Saunders | |
| Ken Moon | Swyddfa Heledd Fychan AS | |
| Tomos Rowley | Swyddfa Delyth Jewell | |
| Liz Smith | Cyswllt Amgylchedd Cymru – ysgrifenyddiaeth | LS |
| Karen Whitfield | Cyswllt Amgylchedd Cymru | KW |
| Rory Francis | Cyswllt Amgylchedd Cymru | RF |
| Llinos Price | Cyswllt Amgylchedd Cymru | LP |
| Roger Thomas | Cyswllt Amgylchedd Cymru | |
| Rachel Sharp | Ymddiriedolaethau Natur Cymru | RS |
| Sharon Thompson | RSPB Cymru | ST |
| Emily Durrant | WWF Cymru | |
| Jerry Langford | Coed Cadw | |
| Adam Thorogood | Coed Cadw | |
| Arfon Williams | RSPB Cymru | AW |
| Tim Birch | Ymddiriedolaethau Natur Cymru | |
| Ken Addison | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW) | |
| Annie Smith | RSPB Cymru | AS |
| Meriel Harrison | RSPB Cymru | |
| Ed Goodall | Cadwraeth Morfilod a Dolffiniaid | |
| Alex Phillips | WWF Cymru | |
| Kate Rees | Ymddiriedolaeth Genedlaethol | |
| Tabea Wilkes | RSPB Cymru | |

**Cofnodion**

**1) Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd**

Croesawodd LS bawb i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am fod yn bresennol. Eglurodd y byddai Cyswllt Amgylchedd Cymru yn cefnogi'r grŵp trawsbleidiol eto y tymor hwn a diolchodd i John Griffiths am gynnig cadeirio’r grŵp eto hefyd. Eglurodd na fyddai’r cyfarfod yn cael ei ffrydio y tro hwn (cynhaliwyd digwyddiadau blaenorol Cyswllt Amgylchedd Cymru ar YouTube y llynedd) i hwyluso trafodaeth ar y blaenoriaethau y dylai’r Senedd ganolbwyntio arnynt o ran byd natur. Dywedodd y byddai’r sesiwn yn dechrau gyda throsolwg byr gan staff Cyswllt Amgylchedd Cymru o'r hyn y mae'r rhwydwaith wedi bod yn gweithio arno, cyn mynd ymlaen i glywed gan ddau fudiad arall sy’n aelodau o'r Cyswllt, sef RSPB Cymru ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru. Mae cyflwyniad cefndirol sy’n cynnwys lincs i ragor o wybodaeth ar gael yma.

Gan fod digon o Aelodau Seneddol yn bresennol, cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Cynigiodd HID JG fel Cadeirydd, ac eiliwyd hyn gan MH. Nododd LS fod Delyth Jewell wedi gwirfoddoli i fod yn Is-Gadeirydd; cynigiwyd hyn gan CT ac eiliodd JB y cynnig. Etholwyd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd.

**2) Cyflwyno’r blaenoriaethau ar gyfer bioamrywiaeth gan staff Cyswllt Amgylchedd Cymru**

Dechreuodd KW gyda chrynodeb byr o'r angen i flaenoriaethu taliadau ffermio a newid defnydd tir yng Nghymru drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Nododd ein bod yn rhagweld y bydd Bil Amaethyddiaeth Cymru yn cael ei gyflwyno yn y Senedd yr haf hwn. Bydd y Bil yn cynnwys dyletswydd ynghylch Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac mae'r rhain yn hanfodol ar gyfer dyluniad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Nododd mai dyma'r cyfle allweddol i ymgorffori safonau ac arferion sy'n gadarnhaol ac sy’n gwarchod natur, yn ogystal â gwella mynediad.

Trosglwyddwyd yr awenau i RF o Gyswllt Amgylchedd Cymru, a ganolbwyntiodd ar gyfleoedd ar gyfer targedau statudol mewn perthynas â byd natur. Pwysleisiodd fod angen y rhain arnom ar fyrder, gan nodi bod yr adroddiad Sefyllfa Byd Natur yn dangos bod 1 o bob 6 rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu. Tynnodd sylw at y ffaith bod y Senedd a Llywodraeth Cymru wedi cytuno, mewn egwyddor, i osod y targedau hyn. Fodd bynnag, mae angen iddynt fod yn fesuradwy ac â therfynau amser yn gysylltiedig â nhw. Tynnodd sylw at uwch-gynhadledd COP 15, sy’n canolbwyntio ar fyd natur ac a fydd yn cael ei chynnal y gwanwyn hwn, gan annog Llywodraeth Cymru i chwarae ei rhan lawn.

Gan symud ymlaen at lywodraethu, nododd LP yr angen dybryd i ymdrin â diffyg llywodraethu ar ôl Brexit. Roedd yn falch o weld bod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith wedi blaenoriaethu’r mater hwn. Aeth ymlaen i ddweud bod Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i gadw'r holl amddiffyniadau amgylcheddol Ewropeaidd blaenorol, ond Cymru yw'r unig wlad yn y DU sydd heb roi trefniadau ar waith eto. Ail-ymrwymwyd i hyn fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llafur a Phlaid Cymru, ond pwysleisiodd fod yn rhaid cyflwyno’r ddeddfwriaeth hon cyn gynted â phosibl.

Wrth ddod â’r cyflwyniad gan Gyswllt Amgylchedd Cymru i ben, siaradodd LS am faterion morol. Dywedodd mai’r brif flaenoriaeth oedd aros am ddynodiad Parthau Cadwraeth Morol, gan nodi bod y cyhoeddiad yn hwyr, gyda’r ymgais gyntaf gan Weinidogion Cymru wedi’i gwneud dros 10 mlynedd yn ôl, ac adroddiad i ddadansoddi’r bylchau i hwyluso’r broses wedi’i gyhoeddi 6 mlynedd yn ôl. Po hiraf yw’r oedi, pwysleisiodd mai’r hiraf yw’r cyfnod pan fydd ein bywyd gwyllt yn ein moroedd yn mynd heb ei warchod. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi cynnull grŵp gorchwyl a gorffen ar y parthau cadwraeth morol, y mae rhai o aelodau'r Cyswllt yn aelodau ohono, ond nid oedd yn gwybod pryd y byddai’r ymgynghoriad ar yr opsiynau yn cael ei lansio. Dywedodd ei bod yn bwysig dynodi ac amddiffyn cyn bwrw ymlaen â datblygiadau ynni adnewyddadwy, oherwydd heb ystyried

yr amddiffyniadau perthnasol yn gyntaf, gallai'r datblygiadau hyn ddigwydd mewn ardaloedd bregus iawn.

Hefyd, nododd LS fod Cyswllt Amgylchedd Cymru yn cydgysylltu'r prosiect Pencampwyr Rhywogaethau unwaith eto y tymor hwn a diolchodd i'r Aelodau o'r Senedd sydd wedi parhau'n bencampwyr. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, dywedodd LS ei bod yn gobeithio y bydd safleoedd Natur am Byth wedi'u creu y gellir mynd â'r Aelodau iddynt i ddangos yr ymdrechion i adfer rhywogaethau penodol.

**3) Crynodeb o flaenoriaethau o safbwynt RSPB Cymru**

Rhoddodd ST ddadansoddiad o flaenoriaethau'r RSPB, gan ddechrau gyda rhybudd mai dyma tymor y Senedd pan fyddwn yn *llwyddo neu'n methu* i wyrdroi'r argyfwng natur a difodiant rhywogaethau. Roedd prif bwyntiau ei chyflwyniad yn cynnwys:

- Yr angen am gamau llywodraethu cadarn i gefnogi'r datganiad o argyfwng byd natur yn y Senedd fis diwethaf; pwysleisiodd bod yn rhaid sicrhau atebolrwydd ac amserlenni, gan obeithio y byddai Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu cyflwyno deddfwriaeth y maes llywodraethu y flwyddyn nesaf.
- Roedd ST o'r farn y dylai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd sicrhau bod ffermio'n cael ei weld fel mecanwaith ar gyfer adfer rhywogaethau, sicrhau cynefinoedd ar gyfer datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, a chreu dyfodol cynaliadwy i gymunedau gwledig.
- O ran materion morol, tynnodd sylw at y ffaith bod angen gwell rheolaeth arnom. Mae'r RSPB yn argymell llunio Cynllun Datblygu Morol i sicrhau bod cynlluniau sero net yn cyd-fynd ag ymdrechion i ddiogelu ac adfer byd natur.
- Yn olaf, nododd ST y cysyniad o Wasanaeth Natur Cenedlaethol, a ddechreuodd drwy Brosiect Adfer Gwyrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ychwanegu bod yr RSPB wedi cymryd rhan yn y gwaith o lunio'r gwasanaeth drwy gynnig a gyllidwyd. Roedd yn gobeithio y byddai Aelodau o'r Senedd yn gallu helpu i ddwyn y prosiect hwn yn ei flaen ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru.

**4) Crynodeb o flaenoriaethau o safbwynt Ymddiriedolaethau Natur Cymru**

Dechreuodd RS drwy ddweud y bydd llawer o Aelodau o'r Senedd wedi cael gohebiaeth yn uniongyrchol gan un o'r pum Ymddiriedolaeth Natur yng Nghymru, a'u bod yn canolbwyntio ar fyd natur, pobl a charbon. Roedd y prif bwyntiau a wnaed yn y cyflwyniad fel a ganlyn:

- Dywedodd RS mai dim ond 3 y cant o'n moroedd yng Nghymru y gellir dweud eu bod wedi'u 'rheoli'n dda', a 7 y cant o'n tir. Pwysleisiodd yr angen nid yn unig i ddynodi ardaloedd ar gyfer gwarchodaeth, ond i adfer yn weithredol fel y gallwn gyrraedd y lefel o 30 y cant wedi'i ddiogelu'n wirioneddol erbyn 2030.
- Argymhellodd y dylid rhoi mwy o sylw i'r Goedwig Law Geltaidd, yn ogystal â'r Goedwig Genedlaethol, a'r angen i leihau llygredd yn gyffredinol ym mhob maes.
- Roedd hi'n gobeithio y byddai nwyddau cyhoeddus ym maes amaethyddiaeth yn "*newid y gêm*" ar gyfer byd natur, os ydyn yn canolbwyntio'n wirioneddol ar ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur. Atgoffodd Aelodau o'r Senedd fod y Adroddiad SoNaRR yn dangos nad oes unrhyw ecosystem yng Nghymru yn wydn, a thrwy ddirywio o bwynt uchel yn flaenorol, Cymru yw un o'r gwledydd sydd wedi gweld y dirywiad mwyaf yn y byd ym myd natur.
- Cytunodd RS â'r siaradwyr blaenorol fod ardaloedd morol yn cael eu hanwybyddu. O gofio bod moroedd Cymru yn fwy na dwbl arwyneb y tir, siaradodd o blaid neilltuo ardaloedd morol gwarchodedig iawn, rhoi mwy o sylw i garbon glas a sicrhau bod pysgodfeydd yn gynaliadwy, gyda chwotâu sy'n gysylltiedig â'r ecosystem. Dadleuodd o blaid rhoi mwy o

sylw i agweddau ar dwristiaeth yn yr economi forol, heb ganolbwyntio ar bysgodfeydd yn unig.
- Wrth gloi, nododd RS fod angen i ni hefyd atal seilwaith niweidiol – gan gymeradwyo Llywodraeth Cymru am ei hadolygiad o'r ffyrdd – ond dywedodd fod yn rhaid sicrhau bod ynni adnewyddadwy'n cael ei ddatblygu ar raddfa y gall byd natur ymdopi â hi. Hefyd, er bod Llywodraeth Cymru wedi dechrau buddsoddi mewn adfer mawndiroedd, ar y gyfradd bresennol nododd y byddai'n cymryd dros 100 mlynedd i'w hadfer ac ni allwn aros mor hir â hynny.

**5) Trafodaeth**

Diolchodd JG i'r siaradwyr am eu sylwadau a gofynnodd i weddill aelodau'r grŵp trawsbleidiol drafod y cyflwyniadau a gafwyd.

Nododd HID fod y cyflwyniadau wedi rhoi trosolwg da iawn o'r sefyllfa bresennol, gan ychwanegu ei fod yn cytuno'n llwyr â'r prif feysydd yr awgrymwyd y dylid canolbwyntio arnynt. Fodd bynnag, o gofio llwyth gwaith Aelodau o'r Senedd, rhybuddiodd y byddai'n awyddus i wybod sut y byddai Cyswllt Amgylchedd Cymru yn blaenoriaethu'r materion a godwyd yn hytrach na cheisio gwneud popeth ar unwaith. Aeth ymlaen i ofyn sut y gellir pwysleisio'r ymyriadau a fydd yn cael yr effaith fwyaf. Roedd y pynciau eraill y soniodd amdanynt yn cynnwys:

- **Plaladdwyr:** Hyd yn hyn, dywedodd HID mai "*dim ond crafu wyneb y mater hwn*" ydyn ni, o ran ymyrraeth polisi yng Nghymru. Er ei fod wedi sylwi ar rai arferion da gan awdurdodau lleol, nid oedd yr arferion hyn ar waith yn fwy cyffredinol. Gofynnodd sut y gallwn ledaenu'r arfer da hwnnw tra'n sicrhau mewnbwn lleol yn yr ymgyrch, o gofio bod llawer o gymunedau yn dibynnu ar gadwyni cyflenwi a chaffael gan gynghorau.
- **Llygredd mewn afonydd:** Dywedodd fod ASau yn awyddus i barhau i ymdrin â llygredd mewn afonydd - gan ddilyn y rheoliadau sydd ar ddod ym maes llygredd amaethyddol - ond dylid hefyd bod yn ymwybodol o lygredd o ffynonellau eraill, fel busnesau nad ydynt yn fusnesau amaethyddol, cwmnïau dŵr a charthffosiaeth, gan geisio dysgu rhagor am y ffynonellau hyn.
- **Cyllideb natur**: Nododd HID fod cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi'i thorri'n sylweddol dros y blynyddoedd, ond tynnodd sylw hefyd at y mater ehangach o ran sut yr ydym yn buddsoddi mewn adfer natur; hynny yw, sut allwn atal y colledion a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth?
- **Swyddogaethau CNC** Yn olaf, ar nodyn tebyg, nododd HID fod CNC wedi'i gyfaddawdu ydychig (neu ei fod o leiaf mewn sefyllfa anodd yn rhy aml) o ran cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio yn ddigonol ar yr un pryd â'i swyddogaethau cynghori, a holodd a yw ei rôl orfodi hanfodol yn cael ei chyflawni'n ddigon da.

Diolchodd CT i'r cyflwynwyr, a chyflwynodd ei hun drwy ddweud ei bod yn dal yn Gynghorydd Sir ar hyn o bryd yn ogystal ag Aelod o'r Senedd – er y bydd yn rhoi'r gorau i fod yn Gynghorydd ym mis Mai. Ychwanegodd ei bod wedi sylwi ar newid sylweddol wrth symud o'r lefel leol i'r lefel genedlaethol yn y Senedd, yn enwedig yn y drafodaeth ar yr argyfwng byd natur (na chafodd ei godi ar lefel llywodraeth leol mewn gwirionedd). Dywedodd CT fod ganddi lawer o ddiddordeb mewn rheoli lleiniau glas a glaswelltir amwynder ar gyfer natur; ychwanegodd fod y Partneriaethau Natur Lleol wedi bod yn gymorth mawr yn y meysydd hynny. Gwnaeth yr achos o blaid **mwy o ymgysylltiad gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol / Cyswllt Amgylchedd Cymru â chynghorau lleol** i hyrwyddo'r syniad bod 'natur yn flêr', yn ogystal â'r ffaith bod llai o dorri gwair yn arbed arian i gynghorau (sy'n bwysig wrth i gyllidebau leihau).

Ymatebodd RS i'r pwynt ar gynghorau, gan ddweud bod cryn dipyn yn digwydd ar lefel gymunedol. Fodd bynnag, er eu bod yn gadarnhaol, ni fydd dulliau tameidiog o ymdrin â seilwaith gwyrdd trefol yn ddigon i ysgogi'r adferiad gwyrdd sydd ei angen arnom mewn gwirionedd. Awgrymodd fod bron yr holl dir *"o dan glo"* mewn amaethyddiaeth, felly'r Bil Amaethyddiaeth fydd y cyfle allweddol i sicrhau newid sylweddol ar ran byd natur yng Nghymru. Ar nodyn tebyg, cadarnhaodd RS safbwynt Cyswllt Amgylchedd Cymru (sef safbwynt Llywodraeth Cymru hefyd) nad yw bwyd yn nwydd cyhoeddus - dywedodd ei fod yn nwydd yn yr ystyr mwy cyffredinol, gan ychwanegu bod pryderon sylweddol wedi'u mynegi y gallai caniatáu i fwyd ddod yn nwydd cyhoeddus arwain at gynllun "*taliadau sylfaenol drwy'r drws cefn"*. Pwysleisiodd yr angen i flaenoriaethu nwyddau cyhoeddus gwirioneddol. Aeth RS ymlaen i nodi mai rhan o rôl cyrff anllywodraethol ym maes yr amgylchedd yw egluro beth yw nwyddau cyhoeddus, neu faterion fel pwysigrwydd mawn, fel y gallwn ddod â'r cyhoedd gyda ni ar y daith ac egluro pam bod y termau cymharol dechnegol hyn yn bwysig.

Mewn ymateb i sylwadau HID ar **blaladdwyr**, aeth RS ymlaen i annog Cymru i weithredu ar y mater hwn. Nododd ein bod yn aros i Gyfarwyddeb Defnydd Cynaliadwy o Blaladdwyr yr UE gael ei gweithredu ar lefel y DU; roedd disgwyl i hyn fod wedi digwydd eisoes, ond mae'r broses wedi'i hoedi o hyd. Ychwanegodd RS fod pryderon wedi'u mynegi ynghylch rhanddirymu neonicotinoidau yn Lloegr yr wythnos diwethaf.

Mewn ymateb i bwynt a wnaed gan HID ynghylch **adnoddau a swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru,** cadarnhaodd RS nad ydy hi am weld y corff yn cael ei ddiddymu mewn unrhyw ffordd, hyd yn oed wrth gydnabod ei ddiffygion. Dywedodd fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn hanfodol, yn enwedig wrth ymateb i argyfyngau, ac aeth ymlaen i annog y corff i flaenoriaethu'r pethau dim ond ef sydd â'r gallu i'w gwneud. Cyfeiriodd at fonitro a gorfodi fel prif flaenoriaethau. Pe bai'r rhain yn cael yr adnoddau priodol, byddai sefyllfa byd natur yng Nghymru yn well. Nododd fod Rheolau Rhwymo Cyffredinol yr Alban yn gweithio'n dda, gan sicrhau cyfradd gydymffurfio o 80 y cant ymhlith y gymuned ffermio. Ychwanegodd RS fod angen i Gyfoeth Naturiol Cymru wneud mwy o ran rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig - er ei bod yn croesawu camau cychwynnol tuag at gynyddu buddsoddiad drwy'r gronfa Rhwydweithiau Natur - a nododd fod yr asiantaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon yn blaenoriaethu ei dyletswyddau statudol, cyn gweithio gyda'r trydydd sector a'r gymuned leol ar lesiant a byd natur.

Ymatebodd ST i'r pwyntiau a wnaed gan HID hefyd. O ran y prif flaenoriaethau yn benodol, roedd yn cydnabod y pwysau ar Aelodau o'r Senedd o ran amser ac adnoddau, ond ni ddylai natur a'r hinsawdd fod "*mewn seilo"* ar wahân i faterion eraill. Dywedodd fod yn rhaid i aelodau'r grŵp helpu i wreiddio'r materion hyn yn well ar draws pwyllgorau'r Senedd a grwpiau trawsbleidiol eraill. Yn gyffredinol, gellid gwario cyllidebau mewn modd mwy ystyriol o fyd natur (hynny yw, yn hytrach na bod angen dyrannu'r cyfan/mwy yn uniongyrchol ar gyfer natur, gellid sicrhau bod gwariant mewn meysydd eraill o fudd i fyd natur lle bynnag y bo hynny'n bosibl). Ychwanegodd y dylai Gweinidogion mewn portffolios eraill hefyd gael eu herio ynghylch sut y gwneir penderfyniadau a'r cynlluniau sy'n cael eu dwyn ymlaen ym mhob maes.

Siaradodd AW yn fyr am ei brif flaenoriaeth a chroesawodd y gefnogaeth gan nifer o Aelodau o'r Senedd ar gyfer y grŵp trawsbleidiol. Ategodd y sylwadau gan y cyfranwyr eraill, gan bwysleisio mai'r **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar fioamrywiaeth. Roedd am i Aelodau o'r Senedd sylweddoli cymaint o fuddugoliaeth y gallai'r cynllun hwnnw ei chynrychioli, gan newid y gêm o ran sicrhau bod y ddegawd nesaf yn arwain at ddatrysiadau ar gyfer yr argyfwng byd natur. Cytunodd KW, gan nodi ei fod yn gyfle i ddylanwadu ar sawl agwedd ar golledion ym myd natur. Ychwanegodd fod grŵp defnydd tir Cyswllt Amgylchedd Cymru hefyd yn gwneud llawer o waith ar lygredd dŵr o ffynonellau eraill (hynny yw, nid o ffynonellau amaethyddol yn unig), fel cwmnïau dŵr.

**6) Y camau nesaf**

Trodd JG at y cynlluniau amlinellol ar gyfer cyfarfodydd y grŵp trawsbleidiol yn y dyfodol, gan grynhoi ei bod yn ymddangos y dylai’r cyfarfod nesaf ganolbwyntio ar ffermio cynaliadwy, o gofio ei fod yn cynnig cyfle enfawr ac yn bwnc hynod amserol. Awgrymodd y dylid gwahodd Lesley Griffiths, y Gweinidog, i’r cyfarfod i ddechrau’r deialog. Pwysleisiodd mai nod yr holl grwpiau trawsbleidiol yw gweithio ar draws ffiniau gwleidyddol, felly roedd yn gobeithio y byddai'r grŵp trawsbleidiol hwn yn sicrhau cymaint o gonsensws â phosibl.

Awgrymodd HID y dylai'r ysgrifenyddiaeth ac Aelodau o’r Senedd gytuno ar eiriad ar gyfer blaenoriaethau’r grŵp i helpu i lywio’r cyfarfodydd yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Cytunodd JG ac LS y byddent yn rhannu geiriad arfaethedig dros e-bost, yn seiliedig ar y drafodaeth yn ystod y cyfarfod hwn ac unrhyw sylwadau ac awgrymiadau gan Aelodau o’r Senedd.

Ychwanegodd LS mai amaethyddiaeth a llywodraethu amgylcheddol yw'r materion mwyaf perthnasol i aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru ar draws y rhwydwaith ar hyn o bryd. Nododd y manteision niferus i fyd natur sy’n gysylltiedig â’r ddau fater hyn; o ran yr ail, dywedodd fod Cymru yn bell ar ei hôl hi o’i chymharu â gweddill y DU o ran cau’r bwlch llywodraethu ac, o bosibl, y gallai newid y dirwedd reoleiddio drwy sefydlu Swyddfa Diogelu’r Amgylchedd newydd (neu beth bynnag fydd enw’r corff yng Nghymru) effeithio ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru a’r berthynas rhwng amaethyddiaeth a llywodraethu amaethyddol.

O ran amodau ffisegol safleoedd natur, ychwanegodd AS ei bod am i Gyfoeth Naturiol Cymru fod yn agored ynghylch asesiadau dangosol o’r safleoedd hyn a chynnwys cyrff anllywodraethol ym maes yr amgylchedd lle bynnag y bo hynny’n bosibl. Os nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu bod yn agored am yr asesiadau hyn, dywedodd AS ei bod yn anodd pwyso ar y Llywodraeth i ailfeddwl faint o adnodd a roddir i’r corff.

Daeth JG â’r cyfarfod i ben, gan ddiolch i bawb am fod yn bresennol ac am gyfrannu. Dywedodd y byddai ef a Chyswllt Amgylchedd Cymru yn cysylltu ag aelodau’r grŵp i rannu gwybodaeth am gyfarfodydd yn y dyfodol a chrynodeb o flaenoriaethau’r grŵp trawsbleidiol yn ystod y Chweched Senedd.

**Camau i’w cymryd:**

- **Cytuno ar ddyddiad y ddau gyfarfod nesaf (y disgwylir iddynt gael eu cynnal ym mis Mai a mis Hydref).**
- **Gwahodd Lesley Griffiths AS i’r cyfarfod ar amaethyddiaeth ym mis Mai.**
- **Llunio pwt o destun i gyfleu blaenoriaethau’r grŵp trawsbleidiol ar gyfer y blynyddoedd nesaf, i’w gytuno gan yr Aelodau.**